# Darparu gwasanaethau eillio

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaeth eillio proffesiynol. Mae angen paratoi a defnyddio offer eillio proffesiynol, gan gynnwys rhoi cynhyrchion gorffennu i weddu i anghenion eich cleient.

I gyflawni'r safon hon, bydd angen i chi gynnal lefel uchel o iechyd, diogelwch a hylendid trwy gydol eich gwaith. Bydd angen i chi hefyd gynnal ymddangosiad personol proffesiynol ac arddangos sgiliau cyfathrebu da.

Dyma brif ganlyniadau'r safon hon:

1. cynnal dulliau gweithio effeithiol a diogel wrth eillio
2. paratoi'r blew a'r croen ar gyfer eu heillio
3. eillio'r blew a rhoi cynhyrchion gorffennu

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Cynnal dulliau gweithio effeithiol a diogel wrth eillio**

*
*

1.
cynnal eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch trwy gydol y gwasanaeth
2.
paratoi eich cleient yn unol â gofynion y salon
3.
gwarchod dillad eich cleient trwy gydol y gwasanaeth
4.
gwisgo menig trwy gydol **y gwasanaeth eillio**
5.
sicrhau nad oes gormod o doriadau gwallt yn mynd ar groen eich cleient yn ystod y gwasanaeth
6.
gosod eich cleient yn unol â gofynion y gwasanaeth heb achosi unrhyw anghysur iddo
7.
sicrhau bod eich ystum a'ch osgo eich hun wrth weithio yn achosi cyn lleied o flinder a risg o anaf â phosibl
8.
cadw'ch ardal waith yn lân ac yn daclus trwy gydol y gwasanaeth
9.
defnyddio dulliau gweithio sy'n:

9.1 lleihau'r risg o ddifrod i **offer a chyfarpar**

9.2 lleihau'r risg o groes-heintiad

9.3 gwneud defnydd effeithiol o'ch amser gweithio

9.4 sicrhau bod adnoddau glân yn cael eu defnyddio

9.5 lleihau'r risg o niwed neu anaf i chi'ch hun ac i eraill

9.6 hyrwyddo arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy

1.
sicrhau bod eich hylendid, diogelwch ac ymddangosiad personol yn bodloni gofynion safonol y diwydiant a'r sefydliad
2.
dilyn cyfarwyddiadau'r gweithle a'r cyflenwyr neu'r gwneuthurwyr er mwyn gwneud defnydd diogel o offer, defnyddiau a chynhyrchion
3.
cael gwared ar ddefnyddiau gwastraff ac offer miniog
4.
cwblhau'r gwasanaeth mewn amser sy'n fasnachol ymarferol

**Paratoi'r blew a'r croen ar gyfer eu heillio**

1.
nodi **ffactorau** a all ddylanwadu ar y gwasanaeth cyn eillio
2.
dewis cynhyrchion**, offer a chyfarpar** yn seiliedig ar ganlyniadau trafodaeth â'ch cleient
3.
paratoi, rhoi ac addasu'r defnydd o dywelion poeth i weddu i anghenion y gwasanaeth a chysur eich cleient
4.
glanhau a/neu ddigennu (*exfoliate*) y croen pan fo angen
5.
defnyddio cynnyrch cyn-eillio cyn **seboni**'r cleient
6.
paratoi **cynhyrchion seboni** fel eu bod yn addas mewn pryd i'w defnyddio yn y **gwasanaeth eillio**
7.
rhoi **cynhyrchion seboni** mewn ffordd sy'n ystyried y **ffactorau** a nodwyd gennych
8.
rhoi **cynhyrchion seboni** mewn ffordd sy'n sicrhau bod cyn lleied o risg â phosibl iddynt fynd i lygaid neu ar ddillad eich cleient, neu ar yr ardal o gwmpas
9.
defnyddio **technegau seboni** sy'n sicrhau bod y cynnyrch yn gorchuddio'r mannau i'w heillio yn wastad

**Eillio blew a rhoi cynhyrchion gorffennu**

1.
cadarnhau gyda'ch cleient, cyn dechrau eillio, y wedd y cytunwyd arni yn y drafodaeth
2.
addasu'ch **technegau eillio** i ystyried **ffactorau** a nodwyd gennych sy'n effeithio ar y gwasanaeth
3.
addasu'ch **technegau eillio** ac osgo'ch cleient trwy gydol y gwasanaeth er mwyn sicrhau diogelwch a chael gwared ar y blew yn effeithiol
4.
cynnal neu newid ymyl torri raseli yn ystod y **gwasanaeth eillio** pan fo angen
5.
gweithredu camau adfer priodol i ddatrys unrhyw broblemau sy'n codi yn ystod y **gwasanaeth eillio**
6.
sicrhau nad oes **cynhyrchion seboni** ar groen eich cleient wedi i chi orffen eillio
7.
pan fo'u hangen, defnyddio **technegau tylino'r wyneb** mewn ffordd sy'n osgoi anghysur
8.
rhoi **cynhyrchion gorffennu** i gyflawni'r effaith a ddymunir
9.
sicrhau nad oes gormod o wlybaniaeth ar groen eich cleient ar ddiwedd y gwasanaeth
10.
cadarnhau bod eich cleient yn fodlon ar y gwasanaeth gorffenedig
11.
rhoi **cyngor ac argymhellion** i'ch cleient ar y gwasanaeth a ddarparwyd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Cynnal dulliau gweithio effeithiol a diogel wrth eillio**

*
*

1.
eich cyfrifoldebau am **iechyd a diogelwch** fel y cânt eu diffinio gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n ymwneud â'ch swydd
2.
gofynion eich salon ar gyfer paratoi cleientiaid
3.
y dewis o ddillad gwarchod a ddylai fod ar gael ar gyfer cleientiaid
4.
pam y mae'n bwysig defnyddio menig tafladwy wrth eillio
5.
sut y gall osgo'ch cleient a chithau effeithio ar y canlyniad a ddymunir a lleihau blinder a'r risg o anaf
6.
pwysigrwydd defnyddio'r math cywir o gadair barbwr
7.
yr ystyriaethau diogelwch y mae'n rhaid talu sylw iddynt wrth eillio blew'r wyneb
8.
pam y mae'n bwysig osgoi croes-heintiad a chroes-heigiad
9.
pam y mae'n bwysig cadw'ch ardal waith yn lân ac yn daclus
10.
defnyddio a chynnal a chadw offer eillio yn gywir
11.
y dulliau o lanhau, diheintio a sterileiddio a ddefnyddir mewn salonau
12.
pam y mae'n bwysig gosod eich offer eillio wrth law
13.
y peryglon a'r risgiau sy'n bodoli yn eich gweithle a'r arferion gweithio diogel y mae'n rhaid i chi eu dilyn

14.
y mathau gwahanol o ddulliau gweithio sy'n hyrwyddo **arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy**
15.
y dulliau o weithio'n ddiogel ac yn hylan sy'n lleihau'r risg o groes-heintiad a chroes-heigiad
16.
pwysigrwydd hylendid, diogelwch ac ymddangosiad personol i gynnal iechyd a diogelwch yn eich gweithle
17.
cyfarwyddiadau cyflenwyr a gwneuthurwyr y mae'n rhaid i chi eu dilyn er mwyn gwneud defnydd diogel o offer, defnyddiau a chynhyrchion
18.
y dulliau cywir o gael gwared ar wastraff
19.
amserau gwasanaeth disgwyliedig eich salon ar gyfer eillio blew'r wyneb

**Paratoi'r blew a'r croen ar gyfer eu heillio**

*
*

1.
y **ffactorau** y mae'n rhaid eu hystyried cyn ac yn ystod y gwasanaeth eillio
2.
y mathau o raseli llafn agored â llafnau tafladwy sydd ar gael ar gyfer defnydd proffesiynol
3.
sut i baratoi rasel llafn agored â llafn tafladwy ar gyfer ei ddefnyddio
4.
sut i baratoi a defnyddio cynhyrchion seboni yn gywir
5.
adeiledd a swyddogaeth y croen
6.
yr anhwylderau ar groen y pen a chroen yr wyneb sydd fel arfer yn effeithio ar ddynion, a sut i'w hadnabod
7.
pwysigrwydd seboni a'i swyddogaeth ar y croen a'r blew

8.
effaith gwres ar y blew a'r croen
9.
y risg posibl o flew yn tyfu i'r byw o ganlyniad i eillio'n agos yn rheolaidd
10.
sut y mae'r broses heneiddio naturiol yn effeithio ar groen yr wyneb a ffyrfder y cyhyrau
11.
sut y mae ffactorau amgylcheddol a ffordd o fyw unigolyn yn effeithio ar gyflwr y croen
12.
pryd i beidio ag eillio

**Eillio blew a defnyddio cynhyrchion gorffennu**

1.
pwysigrwydd cadarnhau gyda'ch cleient, cyn dechrau eillio, y wedd y cytunwyd arni yn y drafodaeth
2.
pryd a pham y mae'n angenrheidiol cwtogi hyd y farf cyn eillio
3.
sut i gyflawni technegau eillio gwahanol
4.
pam y mae'n rhaid tensiynu croen yn ystod y broses eillio
5.
pwysigrwydd gweithio mewn ffordd sy'n cynnal tymheredd cywir y croen trwy gydol y broses eillio
6.
pwysigrwydd addasu technegau eillio mewn perthynas â chyfeiriad tyfiant y gwallt
7.
pryd a pham y dylid defnyddio technegau brwsio a thylino i roi cynhyrchion seboni
8.
pryd a pham y dylid eillio â sbwnj
9.
y rhesymau dros ddefnyddio tywelion claear ar ôl eillio, a'u heffeithiau
10.
pam na ddylid defnyddio tywelion oer os yw'r wyneb i gael ei dylino
11.

y mathau o gynhyrchion gorffennu sydd ar gael i'w defnyddio a'u heffeithiau ar y croen

12.
sut i gyflawni'r technegau tylino sydd yn y maes

13.
budd ac effeithiau tylino'r wyneb

14.
sut a pham y dylai technegau tylino amrywio ar rannau gwahanol o'r wyneb

15.
problemau a all godi yn ystod y broses eillio, er enghraifft eillio'r blew yn rhy agos neu niweidio croen y cleient neu'ch croen eich hun, a ffyrdd o ddatrys problemau o'r fath

16.
pwysigrwydd darparu **cyngor ac argymhellion** ar y cynhyrchion a'r gwasanaethau a ddarperir yn y salon

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**1. Gwasanaeth eillio**

1.1 eilliad llawn

1.2 eilliad rhannol

1.3 amlinellau barf

**2. Offer a chyfarpar**

2.1 raseli llafn agored, gyda llafnau tafladwy

2.2 brwshis eillio

2.3 sbwnjis

**3. Ffactorau**

3.1 y dosbarthiadau o walltiau

3.2 nodweddion gwallt

3.3 cyflyrau croen anffafriol

3.4 nodweddion anghyffredin

3.5 elastigedd y croen

3.6 amlinell yr wyneb

3.7 tyllau cosmetig i'r wyneb

3.8 dymuniadau'r cleient

**4. Cynhyrchion seboni**

4.1 hufennau

4.2 olewau

4.3 gel

4.4 sebon

**5. Technegau seboni**

5.1 rhoi gyda brwsh

5.2 rhoi trwy dylino

**6. Technegau eillio**

6.1 tensiynu'r croen

6.2 eillio gyda chledr y llaw

6.3 eillio gyda chefn y llaw

6.4 eillio â sbwnj

*
*

**7. Technegau tylino'r wyneb**

7.1 effleurage

7.2 petrissage

7.3 tapotement

**8. Cynhyrchion gorffennu**

8.1 styptigion

8.2 hufen gwlybyru

8.3 balm ôl-eillio

8.4 powdr

**9. Cyngor ac argymhellion**

9.1 sut i gynnal y wedd

9.2 yr ysbaid rhwng gwasanaethau

9.3 cynhyrchion a gwasanaethau cyfredol ac yn y dyfodol

9.4 gofalu am y croen

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â  gwybodaeth a dealltwriaeth

**1. Iechyd a diogelwch**

eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch fel y cânt eu diffinio gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n ymwneud â'ch swydd

1.1 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

1.2 Rheoliadau Cofnodi Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR)

1.3 Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf)

1.4 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân)

1.5 Rheoliadau Gweithrediadau Trafod â Llaw

1.6 Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)

1.7 Rheoliadau Trydan yn y Gweithle

1.8 Deddf Diogelu'r Amgylchedd

1.9 Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle

1.10 Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Weithwyr)

**2. Arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy**

y mathau gwahanol o ddulliau gweithio sy'n hyrwyddo arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy

2.1 lleihau a rheoli gwastraff (ailgylchu, ailddefnyddio, gwaredu diogel)

2.2 lleihau'r defnydd o ynni (sychwyr gwallt sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, goleuadau ynni isel, defnyddio paneli solar)

2.3 lleihau'r defnydd o ddŵr ac adnoddau eraill

2.4 atal llygredd

2.5 defnyddio eitemau tafladwy (tywelion sy'n sychu'n hawdd)

2.6 defnyddio dodrefn wedi'i ailgylchu, ecogyfeillgar

2.7 defnyddio paent heb lawer o gemegion ynddo

2.8 defnyddio cynhyrchion gwallt organig a di-alergedd

2.9 defnyddio lliwyddion gwallt heb fawr ddim amonia ynddynt

2.10 defnyddio defnyddiau pacio cyfeillgar i'r amgylchedd

2.11 dewis cynhyrchion domestig cyfrifol (te a choffi Masnach Deg)

2.12 annog defnyddio llai o garbon wrth deithio i'r gwaith

**3. Ffactorau**

y ffactorau gwahanol y mae'n rhaid eu hystyried cyn ac yn ystod eillio, a sut y gall y rhain effeithio ar y gwasanaeth eillio

3.1 nodweddion gwalltiau

3.2 y dosbarthiadau o walltiau

3.3 siâp y pen a'r wyneb

3.4 steil y gwallt

3.5 cyflyrau croen anffafriol

3.6 tyllau cosmetig i'r wyneb

3.7 dymuniadau'r cleient

3.8 blew yn tyfu i'r byw

3.9 elastigedd y croen

**4. Cyngor ac argymhellion**

*

*

4.1 gwasanaethau ychwanegol

4.2 cynhyrchion ychwanegol

## Gwerthoedd

1. Mae'r **gwerthoeddallweddol** canlynol wrth wraidd gwasanaethau yn y sector gwallt a barbro:

1.1 parodrwydd i ddysgu

1.2 cwblhau gwasanaethau mewn amser sy'n fasnachol ymarferol

1.3 bodloni safonau ymddangosiad y sefydliad a'r diwydiant

1.4 sicrhau bod hylendid a diogelwch personol yn bodloni gofynion safonol y diwydiant a'r sefydliad

1.5 agwedd hyblyg at waith

1.6 gweithiwr tîm

1.7 cynnal gofal cwsmeriaid

1.8 agwedd gadarnhaol

1.9 moeseg bersonol a phroffesiynol

1.10 y gallu i hunanreoli

1.11 sgiliau creadigol

1.12 sgiliau cyfathrebu llafar a dieiriau da

1.13 cynnal dulliau gweithio effeithiol, hylan a diogel

1.14 cadw at gyfarwyddiadau'r gweithle, y cyflenwyr neu'r gwneuthurwyr er mwyn gwneud defnydd diogel o gyfarpar, defnyddiau a chynhyrchion

## Ymddygiadau

1. Mae'r **ymddygiadau** canlynol wrth wraidd darparu gwasanaethau yn y sector gwallt a barbro. Mae'r ymddygiadau hyn yn sicrhau bod cleientiaid yn cael argraff gadarnhaol o'r salon a'r unigolyn:

1.1 bodloni safonau ymddygiad y salon

1.2 cyfarch y cleient yn barchus ac mewn ffordd gyfeillgar

1.3 cyfathrebu â'r cleient mewn ffordd sy'n gwneud iddo deimlo'i fod yn cael ei werthfawrogi a'i barchu

1.4 nodi a chadarnhau disgwyliadau'r cleient

1.5 trin y cleient yn foneddigaidd ac yn gymwynasgar bob amser

1.6 rhoi gwybodaeth a sicrwydd cyson i'r cleient

1.7 addasu'r ymddygiad er mwyn ymateb yn effeithiol i ymddygiadau gwahanol gan gleientiaid

1.8 ymateb yn ddi-oed i gleient sy'n holi am gymorth

1.9 dewis y ffordd fwyaf addas o gyfathrebu â'r cleient

1.10 gwirio gyda'r cleient eich bod wedi deall ei ddisgwyliadau'n llwyr

1.11 ymateb yn ddi-oed ac yn gadarnhaol i gwestiynau a sylwadau'r cleient

1.12 caniatáu amser i'r cleient ystyried yr ymateb a rhoi eglurhad ychwanegol pan fo'n addas

1.13 bod yn gyflym wrth ddod o hyd i wybodaeth a fydd o gymorth i'r cleient

1.14 rhoi i'r cleient yr wybodaeth y mae arno ei hangen ynglŷn â'r gwasanaethau neu'r cynhyrchion a gynigir gan y salon

1.15 bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth a allai fod yn gymhleth i'r cleient a gwirio ei fod wedi ei deall yn iawn

1.16 os bydd unrhyw resymau pam na ellir bodloni gofynion neu ddisgwyliadau'r cleient, dylid eu hesbonio'n glir wrtho

## Geirfa

**1. Y dosbarthiadau o walltiau** (canllaw yn unig yw hwn)

Math 1 – Gwallt syth

1.1 Main/Tenau – mae'r gwallt yn tueddu i fod yn feddal iawn, yn sgleiniog ac yn olewog, a gall fod yn anodd cynnal cyrlen ynddo.

1.2 Canolig – mae gan y gwallt lawer o gyfaint.

1.3 Bras – mae'r gwallt fel arfer yn hynod o syth ac mae'n anodd rhoi cyrls ynddo.

Math 2 – Gwallt tonnog

2.1 Main/Tenau – mae yna batrwm "S" pendant i'r gwallt. Gellir ei steilio mewn sawl ffordd fel arfer.

2.2 Canolig – mae'r gwallt yn tueddu i fod yn grychlyd ac yn anodd ei steilio.

2.3 Bras – mae hwn hefyd yn wallt sy'n anodd ei steilio ac fel arfer yn grychlyd iawn; mae'r tonnau'n tueddu i fod yn fwy trwchus.

Math 3 – Gwallt cyrliog

3.1 Cyrls rhydd – mae gweadedd y gwallt yn gyfuniad o fathau gwahanol. Gall fod yn drwchus gyda llawer o gyfaint a phatrwm "S" pendant. Mae hefyd yn tueddu i fod yn grychlyd.

3.2 Cyrls tyn – mae gweadedd hwn hefyd yn gyfuniad o fathau gwahanol o walltiau, ac mae iddo swm cymedrol o gyrls.

Math 4 – Gwallt cyrliog iawn

4.1 Meddal – mae'r gwallt yn tueddu i fod yn fregus iawn, yn dorchau tyn, ac mae iddo batrwm cyrliog mwy pendant.

4.2 Gwrychog – mae hwn hefyd yn fregus iawn ac yn dorchau tyn; fodd bynnag, nid yw'r patrwm cyrliog mor bendant – mae'n debycach i siâp patrwm "Z".

1. Mae **nodweddion gwallt** yn cynnwys y canlynol:

2.1 trwch y gwallt

2.2 gweadedd y gwallt

2.3 elastigedd y gwallt

2.4 mandylledd y gwallt

2.5 cyflwr y gwallt

2.6 patrymau tyfu gwallt

Darparu gwasanaethau eillio

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | SkillsActive |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2014 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Ebr 2018 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | SkillsActive |
| **RCU gwreiddiol** | SKAGB6 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Mentrau mân-werthu a masnachol, Mentrau Gwasanaeth, Galwedigaethau Gwasanaeth Personol, Trinwyr gwallt a Galwedigaethau Cysylltiedig |
| **Cyfres/Set** | Trin gwallt, Trin gwallt a barbro |
| **Geiriau Allweddol** | Eillio; dynion; barbro |